# Cyngor Tref ***NEFYN*** Town Council

<u>COFNODION</u> Cyfarfod y Cyngor, Nos Fawrth 11/01/2022 ar Zoom am 7yh

**Presennol**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Rhys Tudur (Cad) | Catrin Roberts | Gruffydd Williams | Lleucu Jones | Cai Rees Jones |
| Mared Llywelyn Williams | Arfon Hughes | Alaw Llewelyn Roberts | Gito Williams | Carys Roberts |
| Sharon Williams | Pat Humphreys (Clerc) | | | |

1. **Ymddiheuriadau.**
   Janice Evans, Caren Jones a Rhys Llewelyn.

2. **Datgan buddiant ariannol neu gysylltiad personnol**
   Sharon Williams – Gohebiaeth a dderbyniwyd – Llythyr Stad Glynllifon

3. **Cofnodion er cywirdeb yn unig**
   Cofnodion Pwyllgor Zoom 14/12/2021
   Penderfyniad: derbyn yn gywir.
   Cynnig: Cais Rees Jones Eilio: Gito Williams

4. **Unrhyw Fater Brys**
   - **Rhodfa'r Môr, Nefyn –** Gruffydd Williams
     Mae'r aelod lleol wedi derbyn ebost gan weithiwr cymdeithasol Tim Cymunedol Oedolion Llŷn yn datgan pryder am gwpwl bregus sydd yn byw yn Rhodfa'r Môr Nefyn oherwydd fod twll anferth wrth ymyl mynedfa eu tŷ ac felly yn ei gwneud yn anodd iawn mynd yno. Eglurodd yr aelod lleol iddynt fod CTN wedi derbyn pris gan gontractwr lleol i drwsio'r lôn ers mis Ionawr 2021 a'i fod ef a'r clerc wedi bod ar ôl y contractwr yma sawl gwaith yn gofyn am ddyddiad cychwyn ond hyd yn hyn nid oes dim wedi digwydd. Mae'r aelod lleol wedi cysylltu hefo'r contractwr yr wythnos diwethaf ac mae ef wedi rhoi addewid y bydd yn cychwyn y gwaith cyn gynted a phosibl ac os na fydd hyn yn digwydd fe fydd rhaid cysylltu hefo fo eto.
   - **Llwybrau –** Gruffydd Williams
     Cafwyd diweddariad ar y llwybrau:
     **Llwybr Penrallt**
     Mae'r llwybr yma wedi cael ei ail agor ond nid ydynt wedi sefydlogi y clogwyn o dan llinell y llwybr ac yn edrych ar wahanol opsiynau. Maent wedi symud y fainc i leoliad arall sydd wedi cael ei gytuno gan y perchnogion ac mae'r aelod lleol yn disgwyl cael cyfarfod ar y safle gyda swyddog o Cyngor Gwynedd.
     **Llwybr Morlais**
     Mae'r ymgeisydd wedi penderfynnu symud llinell y llwybr yma fel rhan o'r cais cynllunio sydd yn cael ei drafod ar hyn o bryd.
   - **Cais gan Felin Fach Pwllheli i ddefnyddio Siop Siarad –** Gruffydd Williams
     Mae'r aelod lleol wedi derbyn cais gan Felin Fach Pwllheli i gael defnyddio Siop Siarad am ddiwrnod neu ddau yr wythnos er mwyn ail leoli ychydig o'r gweithgareddau sydd ganddynt ym Mhwllheli ar gyfer Nefyn. Maent yn fodlon cyfrannu tuag at y costau megis rent a trydan ac mae'r aelod lleol am gysylltu hefo'r perchennog i gael caniatad gan mai rentu'r adeilad mae CTN ac efallai y byddai angen addasu rhan o'r adeilad ar eu cyfer.

Penderfyniad: cytuno mewn egwyddor i gais Felin Fach i ddefnyddio Siop Siarad.
Cynnig: Gruffydd Williams Eilio: Sharon Williams

- **Gardd y Llyfrgell – Diweddariad –** Clerc
  Yn dilyn y pwyllgor diwethaf fe gysylltodd y clerc gyda Cyngor Gwynedd yn gofyn am asesiad o'r goeden sydd wrth ymyl y Llyfrgell yn Nefyn ac hefyd os oedd ganddynt wrthwynebiad i CTN greu gardd ar y llecyn o gwmpas y goeden ac mae ymateb wedi ei dderbyn ganddynt ddoe. Cyfrifoldeb CTN fel y tenant yw cael asesiad o'r goeden ac nid oes gan y gwasanaeth Llyfrgelloedd y gyllideb i gyfrannu tuag ato ar hyn o bryd. O ran ein bwriad i greu gardd maent o blaid y bwriad mewn egwyddor ond fe fydd angen i CTN wneud disgrifiad llawn o'r gwaith bwriadedig ynghŷd â cynlluniau ac asesiad risc er mwyn iddynt fedru gwneud asesiad llawn ohono. Mae gan un aelod amryw o gwestiynnau ynglŷn â'r bwriad ond yn gyntaf fe fydd rhaid cael asesiad o'r goeden a gweld beth fydd hwnnw yn ei ddweud.
  Penderfyniad: gofyn i ddau gontractwr am amcanbris i gael asesaid o'r goeden.
  Cynnig: Rhys Tudur Eilio: Sharon Williams
- **Cais am ganiatad i dorri coed yn Cae Chwarae Edern –** Clerc
  Mae'r clerc wedi derbyn ebost gan Scottish Power yn gofyn am ganiatad i dorri coed yn Cae Chwarae Edern sydd o dan wifrau trydan.
  Penderfyniad: caniatau iddynt fynd i dorri'r coed ond pwysleisio nad ydynt yn cael mynd a ceir neu peiriannau ar y tir dim ond ar droed. Mae'r tir yn wlyb iawn yno ac fe fyddai gyrru ceir neu unrhyw beiriant arno yn ei ddifetha o gysidro y bydd peiriannau llaw yn ddigonol i dorri'r coed yma.
  Cynnig: Gito Williams Eilio: Rhys Tudur
- **Cais cynllunio C21/1030/042/LL, codi 7 tŷ annedd ar safle cyn-Egwys Santes Mair, Morfa Nefyn** – Cadeirydd
  Yn y drefn gynllunio y datblygwyr sydd yn gyfrifol am wneud yr asesiadau effaith ar yr Iaith Gymraeg ac nid Cyngor Gwynedd ac oherwydd fod y datblygwyr eisiau codi y tai yma ac yn cael budd ariannol ohonynt maent yn aml yn dweud nad oes effaith niweidiol ar y Gymraeg a dyna sydd yn cael ei ddweud yn yr asesiad ar y cais yma. Mae Cylch yr Iaith wedi bod yn craffu ar yr asesiad yn fanwl ac wedi dod ac ystadegau i fewn ar gyfer Morfa Nefyn i ddangos bod yna effaith niweidiol ar yr Iaith Gymraeg e.e. gostyngiad o 10% o siaradwyr Cymraeg yn yr ardal o'r cyfrifiad diwethaf i'r un blaenorol ac felly yn dangos yn amlwg bod yr asesiad yn anghywir. 'Roedd y datgblygiad o'r 7 tŷ yma yn hollol anfforddiadwy i Morfa Nefyn hefo'r gwyneb gwydr a garej ac ym mhell o afael pobl leol oherwydd eu prisiau. Mae'r cadeirydd wedi blaenyrru adroddiad Cylch yr Iaith i'r clerc ac mae hithau wedi ei yrru i'r aelodau i gyd ac mae'r cadeirydd yn cynnig bod CTN yn ysgrifennu at Cyngor Gwynedd yn datgan eu cefnogaeth ac yn cymeradwyo y math o fanylder mae Cylch Yr Iaith wedi ei roi yn eu gwaith craffu ac hefyd mynegi siomedigaeth nad yw'r un math o graffu yn digwydd gan Cyngor Gwynedd ac mai dyletswydd swyddogion Cyngor Gwynedd ddylai fod i edrych i mewn i'r ffeithiau sydd yn yr asesiadau yma yn fanwl ac nid dibynnu ar gorff gwirfoddol fel Cylch Yr Iaith i wneud hynny.
  Penderfyniad: pasiwyd y cynnig i yrru llythyr at Cyngor Gwynedd.
  Cynnig: Rhys Tudur Eilio: Gruffydd Williams

5. **Cyflwyniad GwyrddNi –** Elis Smits
   Gan nad oedd Elis Smits yn gallu ymuno yn y cyfarfod y mis diwethaf fe gafodd wahoddiad i ymuno heno ac fe gafwyd cyflwyniad ganddo ar ffurff 'slide show'. Diolchodd am gael ymuno a cyflwynodd

ei hun fel Hwylusydd Cymunedol GwyrddNi Pen Llŷn. Mae GwyrddNi yn brosiect sy'n rhan o Datblygiadau Egni Gwledig sydd mewn pump ardal ac mae Pen Llŷn yn un o'r pump ardal yma ac Ynni Llŷn yw partner y prosiect ym Mhen Llŷn. Cronfa Gymunedol Y Loteri Cenedlaethol sy'n ariannu Mudiad GwyrddNi sydd dros gyfnod o 2 flynedd am geisio datblygu rhwydweithiau rhagweithiol a chynnal cyfres o Gynulliadau Cymunedol ar yr hinsawdd hefo 50 o bobol ar draws Pen Llŷn ble byddent yn cytuno ar flaenoriaethau gweithredu ac yna yn cael 3 mlynedd bellach i weithredu ar y blaenoriaethau yma dan arweiniad y gymuned. Fe fydd lansiad ar lein yn cael ei gynnal ar y 8fed o Chwefror am 7 y.h. sydd hefo arbennigwyr yn y maes yn siarad ac fe fydd cyfle y unrhyw un ymuno a gofyn cwestiynnau mewn sesiwn 'cwestiwn ac ateb'. Y teimlad cyffredinnol yw nad oes digon o wybodaeth ar y mater gan nad yw'r lansiad wedi bod eto ac felly nid oes modd ei gefnogi ar y funud.
Penderfyniad: cynnigiodd un o'r aelodau yrru neges i Elis Smits i geisio cael mwy o wybodaeth am y lansiad a gweld os fydd ymateb wedi ei gael cyn ddiwedd y pwyllgor heno.

**6. Ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru –** Cadeirydd
Mae Llywodraeth Cymru wedi lawnsio 3 ymgynghoriad sydd yn ymwneud â thai haf ac mae linc wedi cael ei sefydlu i gael mynediad i'r 3 ymgynghoriad. Maent yn andros o hir ac yn cymeryd amser i'w darllen ond er hwylustod mae set o atebion posibl wedi cael eu paratoi gan y grŵp Hawl i Fyw Adra, ac mae'n bwysig fod aelodau CTN fel ymgyrchwyr yn y maes yma yn ateb yr ymgynghoriadau yma yn unigol.
Penderfyniad: mae'r cadeirydd am anfon y linc i'r clerc a'r clerc i'w hanfon i'r aelodau i'w llenwi mewn yn unigol ac hefyd i'r clerc eu llenwi mewn ar ran CTN.
Cynnig: Gruffydd Williams Eilio: Catrin Roberts
Cafwyd cynnig hefyd i'r clerc anfon y linc at holl Cynghorau Cymuned a Thref yng Ngwynedd.
Penderfyniad: pasiwyd y cynnig yma.
Cynnig: Carys Roberts Eilio: Catrin Roberts

**7. Mynwent Morfa Nefyn –** estyniad i'r fynwent – diweddariad – Clerc
Wedi i'r aelod lleol a'r clerc fynd ar ôl y mater yma cafwyd ymateb gan yr adran gyfreithiol prynhawn y cyfarfod yn atodi arweiniad gan y llywodraeth ar wneud ceisiadau o'r fath ac yn gofyn i CTN ei ddarllen yn ofalus oherwydd y bydd angen i CTN gyflwyno rhywbeth sydd yn dderbyniol ac yn unol a'r polisiau sydd yn yr arweiniad. Maent am baratoi llythyr i CTN yn tanlinellu y materion sydd angen eu cyfarch er caniatau i'r Cyngor ystyried gwneud gorchymyn o'r fath ynghŷd â chostau posibl ac yn gaddo y bydd y llythyr yma yn cael ei yrru atom o fewn yr wythnos.
Penderfyniad: y clerc i yrru'r ebost ymlaen i'r aelodau i gyd iddynt gael gweld yr arweiniad.

**8. Gohebiaeth a Dderbyniwyd**

- **Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Sir Ddinbych 2022 –** cais am gyfraniad ariannol
  Penderfynwyd rhoi cyfraniad o £1,000.00 gan fod yr Urdd yn dathlu canmlwyddiant eleni.
  Cynnig: Carys Roberts Eilio: Mared Llywelyn Williams
- **Cyngor Cymuned Llanbedrog –** cais am gefnogaeth i'w llythyr
  Cais yw hwn am gefnogaeth i lythyr Cyngor Cymuned Llanbedrog i'r Llywodraeth, Cyngor Gwynedd a Cyfoeth Naturiol Cymru ynglŷn â cael datrusiad i'r llifogydd ar yr A499 Pwllheli i Llanbedrog.
  Penderfyniad: pasiwyd i gefnogi eu llythyr.

Clerc: Pat Humphreys
Cae'r Wydden, Lôn Isaf, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6BS.
• Symudol: 07901 704410 • Ebost: clerccyngortrefnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Rhys Tudur – 07825 129737

Cynnig: Arfon Hughes    Eilio: Sharon Williams

- **Stad Glynllifon –** Cytiau Lan y Mor, Nefyn
  Derbyniwyd llythyr gan Stad Glynllifon yn gofyn os oedd gan CTN unrhyw wrthwynebiad iddynt symud cytiau sydd ar dir Lord Newborough i lawr i waelod y clogwyn i dir mwy sefydlog. Cafwyd ychydig o gefndir ar y mater yma gan aelod CTN ynghŷd â lluniau drwy ebost.
  Penderfyniad: y clerc i gysylltu gyda Stad Glynllifon i ddweud nad oes gan CTN ddim gwrthwynebiad iddynt wneud hyn mewn egwyddor ac i bwysleisio nad yw CTN yn gyfrifol am y wal na unrhyw ran o'r traeth mwyach.
  Cynnig: Arfon Hughes    Eilio: Carys Roberts
- **David Entwistle –** Sefyllfa biniau ar Stryd y Plas
  Derbyniwyd ebost gan David Entwistle ynglŷn â sefyllfa biniau gwastraff a biniau ail gylchu ar Stryd y Plas, Nefyn ac yn gofyn os oes modd cadw y biniau yma ar safle gyferbyn sydd yn wag.
  Penderfyniad: y clerc i gysylltu hefo Cyngor Gwynedd i ofyn iddynt atgoffa trigolion Stryd y Plas sydd gyda lle i gadw eu biniau ar eu tir i fynd a nhw oddi yna.
  Cynnig: Gito Williams    Eilio: Alaw Llewelyn Roberts

**9. Ceisiadau Cynllunio**

Dim.

**10. Taliadau i'w gwneud**

**Anfonebau wedi eu derbyn i'w talu:**

- Cyflog y Clerc – £1035.69
- John Gwynfor Jones – Angladd Brenda Owen - £70.00
- Cyngor Gwynedd - Cytundeb Glanhau Llyfrgell Nefyn 01/02/2021 – 31/03/2022 - £2189.74
- Ashley Hughes – offer swyddfa - £10.20
- Bacstal – Gwasanaeth cyflogau - £132.00
- John Gwynfor Jones – Angladd Elizabeth Griffiths - £400.00
- Chris Jones – Nôl, gosod, tynnu lawr a cael gwared a 3 coeden nadolig - £1980.00
- Cliff Hughes – Taliad rhif 8 cytundeb - £1075.00 + Gwaith ychwanegol – 314.72 = £1389.72
- N Power – Trydan Llyfrgell mis Rhagfyr - £191.78
- E.On Next – Trydan Siop Siarad mis Rhagfyr - £125.54
- H M Revenue & Customs – PAYE Mis 9 - £106.75

Penderfyniad: Talu pob anfoneb
Cynnig: Arfon Hughes    Eilio: Cai Rees Jones

**11. Taliadau wedi eu derbyn**

Dim.

<u>**Is-bwyllgor Bryn Mynach**</u>

Ar ôl y difrod a wnaed i offer y cae chwarae ddechrau'r flwyddyn cafwyd cynnig gan un o'r aelodau i edrych i mewn i gael CCTV yn y maes parcio.
Penderfyniad: y clerc i gysylltu hefo Cyngor Gwynedd i ofyn y cwestiwn.
Cynnig: Lleucu Jones    Eilio: Carys Roberts

Clerc: Pat Humphreys
Cae'r Wydden, Lôn Isaf, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6BS.
• Symudol: 07901 704410 • Ebost: clerccyngortrefnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Rhys Tudur – 07825 129737